






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

16 Hydref 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

16 Hydref 2020

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Erbyn 15 Hydref, roedd gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru fwy na 50 o achosion i bob 100,000 o'r boblogaeth, ac eithrio Ceredigion, Sir Benfro a Phowys (28, 33 a 48 achos i bob 100,000 o'r boblogaeth, yn y drefn honno). Ceir darlun tebyg ar gyfer canran yr achosion positif, gyda mwy na 5% yn profi'n bositif ym mhob Awdurdod Lleol, ar wahân i Sir Benfro (3.7%).
- Gwelwyd cynnydd mewn achosion, defnydd gwelyau ysbytai a marwolaethau oherwydd COVID-19 dros yr wythnosau diwethaf.
- Yn ôl astudiaeth Heintiau COVID-19 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer yr wythnos 02 i 08 Hydref, roedd gan gyfartaledd o 0.26% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19, sy'n cyfateb i tua 1 person ym mhob 390. Awgryma'r data fod y gyfradd sydd wedi profi'n bositif wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond efallai ei bod wedi lefelu ers hynny. Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn gan fod y canlyniadau'n sensitif iawn i newidiadau bach yn nifer y profion positif.
- Dengys tystiolaeth fod achosion yn parhau i ymddangos mewn grwpiau oedran hŷn.
- Heb ymyrraeth, bydd cynnydd parhaus yn nifer yr achosion o COVID-19 yng Nghymru yn rhoi pwysau ar y GIG o ran y galw am welyau ysbytai a gwelyau yn yr unedau gofal dwys. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol ac er mwyn cydbwysu'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol yn sgil COVID-19 yn effeithiol, mae'r Gell Cyngor Technegol (TAC) yn argymhell rhoi ystyriaeth frys i gyfnod atal byr cenedlaethol. Nod hyn fyddai lleihau nifer yr achosion i lefel gynaliadwy a byddai'n cael ei ddilyn gan gyfres o ymyriadau cenedlaethol cynaliadwy i gadw R_t tua 1 tra'n sicrhau'r manteision cymdeithasol, economaidd ac iechyd mwyaf posibl. Cyhoeddwyd papur tystiolaeth pellach ar y pwnc hwn [yma](#).
- Mae'r broses o lacio'r cyfyngiadau o fis Gorffennaf/Awst ymlaen wedi cyfateb i gynnydd mewn achosion, gyda'r data genomeg yn awgrymu y gallai cynnydd yng Nghymru fod wedi'i lywio'n rhannol gan achosion sydd wedi cyrraedd o'r tu allan i Gymru. Mae'r papur tystiolaeth sy'n cefnogi hyn ar gael [yma](#).
- Cyhoeddir papurau gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) a ystyriwyd gan y TAC a'r Grŵp Cyngori Technegol ehangach [yma](#):

Cyfradd dwf a rhif Atgynhyrchu

- Amcangyfrifir gan SAGE (14 Hydref) bod y gyfradd dwf ddyddiol bresennol rhwng 0.02 a 0.06 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiau fod yn cynyddu rhwng 2% a 6% y dydd.
- Rhagwelir y bydd yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif Atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru gan SAGE (14 Hydref) rhwng 1.1 ac 1.4. Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel ystod heb amcangyfrif canolog.
- Dylid dal i fod yn wiliadwrus wrth ddehongli R_t ac amcangyfrifon cyfraddau twf ar gyfer y DU, oherwydd yr oedi o ran amser, a gan fod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiadau yn nifer yr heintiau a sut mae cyfraddau trosglwyddo yn newid mewn rhai rhannau o'r wlad. Gall argaeledd profion hefyd fod yn gyfyngiad.

Amser dyblu

- Mae SAGE yn amcangyfrif y bydd amseroedd dyblu ar gyfer heintiau newydd ledled y DU rhwng 10 a 15 diwrnod. Mae anawsterau parhaus o ran dehongli data profion ac felly mae amcangyfrifon o amseroedd dyblu yn parhau i fod yn ansicr. Mae heterogenedd sylweddol ar draws ardaloedd daearyddol a'r potensial ar gyfer amseroedd dyblu cyflymach mewn rhai ardaloedd.


Amcangyfrif o nifer yr heintiau yng Nghymru

- Ar hyn o bryd, amcangyfrifwn mai cyfanswm nifer yr heintiau yng Nghymru yw tua 2,554 o heintiau y dydd (cyfwng hyder o 90% 347 - 4,761). Noder nad yw'r cyfwng hyder is yn gredadwy mewn gwirionedd gan ei fod yn is na'r nifer bresennol o achosion a gadarnhawyd bob dydd.
- Mae hwn yn amcangyfrif o nifer yr heintiau coronafeirws bob dydd yng Nghymru ac fe'i cyfrifir yn wythnosol gan SPI-M (Y Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig - Modelu) gan ddefnyddio consensws o fodelau cyfrifiadurol soffistigedig, sy'n defnyddio'r rhif R presennol.

Proffil oedran achosion


- Fel yr adroddwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru, mae nifer yr achosion wedi cynyddu ar draws pob grŵp oedran, ac mae ar ei uchaf ymhlith pobl o dan 50 oed.

- Mae'r siart isod yn dangos data hyd at yr wythnos a ddaeth i ben ar 11 Hydref. Mae cyfran gynyddol o achosion o hyd (a ddangosir mewn coch tywyllach) mewn grwpiau oedran hŷn.



Marwolaethau

- Fel yr adroddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae nifer y marwolaethau a adroddwyd drwy wyladwriaeth marwolaethau cyflym wedi cynyddu yn yr wythnos ddiwethaf, er bod y lefelau'n yn dal i fod yn is na'r lefelau a welwyd yn ystod mis Ebrill 2020 (gwelwyd y nifer uchaf yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 12 Ebrill, sef 236).
- Yn ôl data tystysgrifau marwolaeth dros dro a ddarparwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cofrestrwyd 24 o farwolaethau COVID-19 ymhlith trigolion Cymru gyda COVID-19 ar y dystysgrif marwolaeth yn ystod wythnos 40 (a ddaeth i ben ar 2 Hydref). Mae hyn yn uwch na'r wythnos flaenorol.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos y nifer wythnosol o farwolaethau COVID-19 a gofrestrwyd yn ôl lleoliad yng Nghymru ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 13 Mawrth 2020 (Wythnos 11) hyd at yr wythnos a ddaeth i ben 2 Hydref 2020 (Wythnos 40).




Provisional figures to Week 40 for Welsh residents have been produced using data provided by ONS to Public Health Wales. Deaths at home are those at the usual residence of the deceased where this is not a communal establishment. Care homes includes homes for the chronic sick; nursing homes; homes for people with mental health problems and non-NHS multi-function sites. COVID-19 was identified using ICD-10 codes U07.1 and U07.2. COVID-19 (any mention) refers to deaths that had COVID-19 mentioned anywhere on the death certificate, whether as underlying cause or not. Figures may differ slightly to those published by ONS due to the use of different extracts of the data at different time periods. Data is therefore subject to change as more information is received.

Diweddariad rhyngwladol


- Bu dirywiad cyffredinol parhaus yn amodau'r pandemig ar draws pob rhan o Ewrop ond gyda rhai gwahaniaethau yn y gyfradd dwf a maint cymharol yr achosion a gofnodwyd rhwng gwahanol wledydd.
- Mae Gweriniaeth Tsiec wedi gweld twf cyflymach yn y nifer o achosion nag unrhyw ran arall o Ewrop, ond mae sawl gwlad arall hefyd yn gweld twf cyflym iawn – mae Ffrainc, Gwlad Pwyl, yr Eidal a'r Almaen wedi cofnodi'r cynnydd dyddiol mwyaf a welwyd ganddynt yn y ddau ddiwrnod diwethaf (dydd Mercher a dydd Iau) ers dechrau cynnal profion torfol.
- Mae'r gwledydd sydd â niferoedd uchel sy'n dal i gynyddu'n gyflym (am bob 100,000 o'r boblogaeth ac mewn niferoedd gwirioneddol) yn cynnwys: Ffrainc, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, y Weriniaeth Tsiec, Slofacia, Gwlad Pwyl, Hwngari, Rwmania, Bwlgaria a rhai o wledydd y Balcanau. Mae'r gwledydd sydd â chyfraddau heintio sy'n cynyddu'n gyflym, ond gan ddechrau o linell sylfaen is yn cynnwys yr Almaen, yr Eidal a Sweden. Mae gan bob un o'r gwledydd hyn werthoedd R_t sy'n fwy nag 1.

- O ran marwolaethau, mae Rwsia wedi cofnodi’r nifer uchaf o farwolaethau dyddiol ers dechrau’r pandemig. Mae Rwsia wedi ei chael yn anodd rheoli’r pandemig yn ystod misoedd yr haf (gan na aeth y gyfradd heintio yn is na tua 5000 o achosion dyddiol) ac mae’r gyfradd farwolaethau uchel yn ganlyniad i hyn a dirywiad cyflym a chynnar o ddechrau mis Medi ymlaen.
- Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi bod cyfandir Ewrop wedi pasio’r trothwy o 1000 marwolaeth y dydd.
- Mewn sawl gwlad, mae cyfyngiadau llymach, mesurau argyfwng a mesurau cyrffiw yn cael eu cyflwyno ac mae cau bariau, bwytai, clybiau nos, campfeydd, gorfodi gwisgo gorchuddion wyneb o dan do ac yn yr awyr agored a sawl mesur arall (gan gynnwys cau ysgolion, siopau ac ati mewn rhai ardaloedd) yn ymatebion cyffredin, sy’n adlewyrchu’r anawsterau y mae Llywodraethau’n eu cael wrth reoli lledaeniad y feirws. Yr hyn sy’n amlwg yw bod cydymffurfiaeth barhaus y bobl yn bryder difrifol mewn sawl gwlad, h.y. mae’n broblem gynyddol bod pobl yn blino ar y cyfyngiadau.
- Mae’r map isod yn dangos y gyfradd mynychder gyfartalog 14 diwrnod i bob 100,000 o bobl ar gyfer wythnosau 40-41. Mae’n amlwg mewn sawl rhanbarth bod nifer yr achosion wedi codi i dros 120 o achosion i bob 100,000 o bobl ac i dros 240 o achosion i bob 100,000 o bobl mewn nifer cynyddol o ardaloedd.
- Mae data ar y darlun ledled Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi data a pholisïau profi amrywiol, ar gael [yma](#):




Glynu at y mesurau presennol a symudedd

- Mae data diweddaraf [IPSOS MORI](#) ar gyfer Cymru yn dangos canlyniadau tebyg i bythefnos yn ôl ar gyfer nifer o ymddygiadau lliniaru allweddol. Cynyddodd y ganran a ddywedodd eu bod wedi defnyddio gorchudd wyneb ymhellach i 87% (o 83%), tra bod y rhai a ddywedodd eu bod wedi gweithio o'u cartref wedi gostwng o 36% i 30%. Dylid nodi mai ymlyniad a gofnodwyd gan yr unigolyn yw hyn ac y bydd wedi'i effeithio gan ddealltwriaeth yr unigolyn o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.



- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws](#) yn dangos bod 48% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn 'dda iawn' a 37% arall yn eu deall yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 47% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a dywedodd 43% arall eu bod wedi cydymffurfio â'r mwyafrif. Mae hyn yn debyg iawn i ganlyniadau'r [astudiaeth gymdeithasol COVID](#).
- Nid yw data symudedd Cymru a'r DU yn dangos fawr ddim newid ar y cyfan ers yr wythnos diwethaf.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen, mae hyn 15% yn is na'r llinell sylfaen (ac yn uwch na'r wythnos diwethaf). Mae 26% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros yn eu hunfan, yn debyg i'r wythnos diwethaf. Ar ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros yn eu hunfan – roedd hyn tua 18% ar ddechrau mis Mawrth.
- Mae [data Apple](#) sy'n dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru yn debyg i'r wythnos diwethaf. Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded wedi cynyddu ychydig dros yr wythnos tra bod ceisiadau am gyfarwyddiadau trafniadaeth gyhoeddus wedi gostwng ychydig.
- Mae [data symudedd Google](#) yn dangos gostyngiadau bach mewn gweithleoedd a chynnydd mewn lleoliadau preswyl yn ystod yr wythnos diwethaf (h.y. pobl yn treulio mwy o amser gartref na'r wythnos diwethaf). Mae'r categorïau eraill i gyd yn dangos gostyngiadau.

- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelwyd cynnydd mwy mewn symudedd yn Lloegr na Chymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny drwy gydol mis Awst. Yn dilyn gostyngiadau bach yn nechrau i ganol mis Medi, bu gostyngiadau mawr mewn symudedd yng Nghymru ers cyflwyno'r cyfyngiadau lleol cyntaf.
- Mae data ffonau symudol dienw ac agrededig gan O2 hyd at 9 Hydref wedi dangos, ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau lleol, fod gostyngiadau nodedig mewn teithiau ym mhob ardal y diwrnod ar ôl i'r cyfyngiadau ddechrau (am 6pm). Ymddengys fod teithiau yn ôl i tua'r lefelau cyn y cyfyngiadau symud mewn sawl ardal, gydag eraill yn dal i ddangos gostyngiad cyffredinol. Nid yw teithiau yng Nghymru wedi dangos fawr ddim newid yn ystod yr wythnos ddiwethaf ac maent tua'r lefelau a welwyd ar ddechrau mis Gorffennaf. Yn ystod y rhan fwyaf o'r haf roedd teithiau yng Nghymru a'r DU yn debyg i lefelau mis Mawrth, ond maent bellach yn is yng Nghymru – tua 34% yn is nag yr oeddent yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth o gymharu â 22% yn y DU.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr-6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer y cyfnod Awst 17 – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.



Canlyniadau Arolwg Heintiau COVID-19 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

- Ar gyfer yr wythnos 02 i 08 Hydref, roedd gan gyfartaledd o 0.26% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy: 0.08% i 0.59%).

- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 390 (cyfwng credadwy 95%: 1 ym mhob 1,250 i 1 ym mhob 170), neu 7,900 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 2,400 i 18,200).
- Awgryma'r data fod y gyfradd sydd wedi cael prawf positif wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond efallai ei bod wedi lefelu ers hynny.
- Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu o hyd, mae'r canlyniadau'n sensitif iawn i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.

Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 5820 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy'n gynydd o 183 yn y 7 diwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

(Ar 15 Hydref, 2020)

- Cynyddodd cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw lechyd Cymru yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Gostyngodd ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt ac amheuaeth o COVID-19 yn wythnos 41 o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.
- Cynyddodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd gan labordai yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol ac roedd cyfradd y profion positif yn 10%.
- Yn ystod wythnos 41, cynyddodd nifer yr achosion ar draws pob grŵp oedran. Roedd nifer yr achosion ar eu huchaf mewn oedolion o dan 50 oed, yn enwedig y rhai iau na 30 oed.
- Mae nifer yr achosion a gadarnhawyd a chyfradd y profion positif yn parhau i godi ym mhob rhanbarth bwrdd iechyd yng Nghymru.
- Mae achosion a gadarnhawyd mewn cleifion sy'n cael eu profi pan fyddant yn cael eu derbyn i'r ysbyty a chleifion yn yr unedau gofal dwys wedi aros yn sefydlog yn wythnos 41 o gymharu â'r wythnos flaenorol. Bu tuedd

gynyddol yn nifer y cleifion mewnol sydd wedi cael prawf positif, yn enwedig ym mwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg.

- Nodwyd tueddiadau cynyddol yn ddiweddar yn nifer yr achosion a gadarnhawyd yn rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru.
- Mae dosbarthiad achosion yn awgrymu lledaeniad daearyddol cynyddol, gyda chynnydd mewn canolrif ac ystod o niferoedd achosion fesul ardal hefyd.
- Adroddir am niferoedd cynyddol o ddigwyddiadau, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, ysgolion ac ymhlith myfyrwyr prifysgol.
- Nodir gweithgarwch mewn ysgolion yn ddiweddar, a nodir achosion yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.
- Gwelwyd y gweithgarwch uchaf yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful a Wrecsam. Ar 15 Hydref, mae cyfyngiadau lleol ar waith ar hyn o bryd mewn 15 ardal awdurdod lleol, un tref (Llanelli) ac un ddinas (Bangor).
- Nodwyd achosion lluosog ymhlith oedolion ifanc o oedran myfyrwyr prifysgol gydag adroddiadau am drosglwyddiadau mewn lletyau a rennir.
- Mae marwolaethau o bob math ar y lefel a ddisgwyllir yn dymhorol. Gwelwyd cynnydd mewn marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty.

Dangosfwrdd Data’r GIG


- Diweddarwyd data ysbytai ar 19/10/2020.
- Mae’r tabl isod yn rhoi manylion y gwelyau sy’n cael eu defnyddio yn yr Unedau Gofal Dwys (ICU) ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae’r ffigurau isod yn dangos bod nifer y cleifion a dderbynnir i’r ysbyty oherwydd COVID-19 (cadarnhawyd neu a amheuir) wedi codi ers brîff yr wythnos diwethaf o 59.5% i 62.1%.¹

¹ Cywiriad: Cyfeiriodd y frawddeg hon yn wreiddiol at y defnydd o welyau Gofal Dwys gan gleifion â Covid-19, pan fo’r niferoedd gwirioneddol a ddangosir yn y tabl yn cyfeirio at ddefnydd o welyau Gofal Dwys yn gyffredinol.

Bwrdd Iechyd	Defnydd gwelyau Unedau Gofal Dwys lefel 3 %	Cleifion COVID-19 a Amheuir	Cleifion COVID-19 Positif
BIPAB	68.7%	2	7
BIPBC	68.8%	3	3
BIPCTM	56.4%	0	7
BIPCF	59.4%	1	3
BIPHD	59.4%	0	0
BIPBA	62.0%	1	4
Cymru	62.1%	7	24


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf COVID-19 positif ac mewn Unedau Gofal Dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrdau iechyd yng Nghymru.

Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty ac yr amheuir neu y cadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS Hospital Admissions




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl sydd wedi gadael yr ysbyty ac yr amheuir neu y cadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS Hospital Discharges



- Mae'r Ffigur isod yn dangos cleifion a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys ac yr amheuir neu y cadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS L3 ICU Admissions



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

